Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 372

**Amseru:** Pwysig

**Teitl:** Cydlynydd Ymchwil Plismona ar Sail Tystiolaeth parhad

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Cydweithio / staffio

**Crynodeb Gweithredol:**
Yn ystod haf 2023, cytunodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh) a chyn Is Ganghellor Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCDDS) i gydweithio ar gynllun peilot 2 flynedd i gyflogi Cydlynydd Ymchwilio i Blismona ar Sail Tystiolaeth yn Swyddfa CHTh (gweler penderfyniad DLl 291). Ar ôl cyfnod o lunio proffil rôl a recriwtio, dechreuodd yr ymgeisydd llwyddiannus ei swydd ar 05/02/2024, gyda'r cytundeb yn dod i ben ar 04/02/2026. Mae PCDDS wedi cadarnhau nad ydynt yn gallu parhau i ariannu'r bartneriaeth tu hwnt i'r cyfnod peilot.
Mae'r Cydlynydd wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran annog Plismona ar Sail Tystiolaeth o fewn Heddlu Dyfed-Powys, fodd bynnag, nid yw wedi'i ymgorffori'n llawn o fewn HDP eto. Bydd yr ysgogiad yn dirywio'n sylweddol heb Gydlynydd i hybu gweithgarwch, a theimlir bod angen mwy o amser i weithredu newidiadau gweithredol sy'n deillio o ymchwil. Gan hynny, ceisiodd SCHTh estyn cytundeb y daliwr swydd presennol am gyfnod o 12 mis i ehangu'r rôl a darparu cymorth penodedig i weithgarwch gwerthuso prosiect HDP a datblygu 'Canolfan Arloesedd' newydd, gan sicrhau cysylltiad â'r byd academaidd a'r defnydd o blismona sy'n seiliedig ar dystiolaeth lle mae'n bosibl. Byddai'r daliwr swydd yn aros yn ei swydd dros dro o fewn SCHTh i alluogi goruchwyliaeth CHTh a rheoli llwyth gwaith o ddydd i ddydd.

**Argymhelliad:**
Bod CHTh yn estyn rôl y Cydlynydd Ymchwilio i Blismona ar Sail Tystiolaeth am 12 mis o 5 Chwefror 2026.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**
Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.
Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:**  **Dyddiad: 03/12/2025**